

# Yr ABCDEF o weld slefrenni môr

Os ydych yn gweld slefren fôr wrth ddeifio... mae diddordeb gennym! Gall arsylwadau syml megis lleoliad a dyfnder fod yn addysgiadol tu hwnt. I wneud adrodd arsylwadau o'r math yn haws rydym wedi datblygu'r ABCDE o weld slefrenni môr. Yna'r cyfan sydd angen ei wneud yw adrodd y canlyniadau ar [www.jellyfish.ie](http://www.jellyfish.ie)

**A) Cydgrynnoadau o slefrenni môr?** Ydych chi wedi gweld cydgrynhoad (blŵm/haid) o slefrenni môr? Os felly, pa fath o slefrenni môr oeddent, sawl slefren fôr oedd yn yr haid (10au, 100oedd 1000oedd, neu fwy), oedd y cydgrynhoad yn ffurfio haen gynnil ar ddyfnder arbennig neu oedd hi drwy gydol y golfn ddŵr?

**B) Slefren Fôr Gasgen?** Ydych chi wedi gweld Slefren Fôr Gasgen (Barrell Jellyfish)? Os felly, ble oedd hi a pha faint oedd hi (maint soser, plât ginio, caead bin sbwriel)?

**C) Slefren Fôr Cyanea?** Ydych chi wedi gweld Slefren Fôr Mwing Llew (Lion's Mane Jellyfish, *Cyanea capillata* i ddefnyddio'i henw Lladin)? Os felly, ble oedd hi ac ar ba ddyfnder y gwelsoch hi?

**D) Slefren Fôr Farw?** Ydych chi wedi gweld slefren fôr farw (neu'n fyw) ar wely'r môr? Os felly, pa fath o slefren fôr oedd hi ac oedd na mwy nag un slefren fôr?

**E) Bwyta'n fyw?** Ydych chi wedi gweld unrhyw anifail yn bwyta slefren fôr? Er enghraifft, ydych chi wedi gweld pysgodyn yr anemoni neu granc yn bwyta slefren fôr?

**F) Pysgod a slefrenni môr?** Ydych chi wedi gweld pysgod yn nofio gyda slefrenni môr? Os felly, faint o bysgod oedd gyda'r slefren fôr (0, 1, 2, 3-5, 6-10, 11-15, 15-20, 20-30, 30+), ble y gweloch chi hyn a faint o'r gloch y dydd/nos oedd hi?



Bob tro yr ydych yn gweld slefren fôr, y pethau pwysig i'w hadrodd yw: pa fath o slefren fôr ydyw, ei maint (maint soser, plât ginio, caead bin sbwriel), dyfnder y dŵr, tymheredd y dŵr, y lleoliad (500m i'r dwyrain o Ynys Dalkey), y dyddiad a'r amser y gwelwyd y slefren fôr.

A chofiwch, mae lluniau werth y byd a'i berlau! Ymhellach, bydd llun slefren fôr gorau'r flwyddyn yn **ennill** tocyn '**Taith am ddim i gar a dau berson i Iwerddon**' gydag Irish Ferries.

Felly byddwch yn llipryn slefrenni môr a phrofwch eich ffrindiau deifio – ydych chi'n gwybod Cod ABC y Slefrenni Môr?!

**Lluniau o'r pen i'r gwaelod:** Michelle Cronin, Tom Doyle, Patricia Byrne, Oliver Buckley, Amy Dale ac Oliver Buckley